"A"

CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Fawrth, 11eg Tachwedd, 2025**, yng Neuadd Goffa, Sarn, o 7.30 p.m. hyd 8.10 p.m.

Presennol: Y Cynghorydd Gwenan Griffiths (Cadeiryddes)
Y Cynghorydd Elin Hughes (Is-Gadeiryddes – rhan o'r cyfarfod)
Y Cynghorwyr Dylan Parry Jones, Glyn Roberts, Michael Strain, Efan Thomas, Carys E. Williams, Iwan J. Williams, Siôn Williams

Ymddiheuriadau: Y Cynghorwyr Carys H. Evans, Glenys Williams, Y Cynghorydd Gareth Williams (Cynghorydd Pen Draw Llŷn ar Gyngor Gwynedd)

65. CYHOEDDIADAU'R GADEIRYDDES

Nid oedd unrhyw gyhoeddiad i'w wneud.

66. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad.

67. CADARNHAU COFNODION 13eg HYDREF, 2025

Cyflwynwyd, cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y cyfarfod uchod.

(Cynigiwyd gan Y Cynghorydd Siôn Williams ac eiliwyd gan Y Cynghorydd Iwan Williams gyda phawb yn cytuno).

Materion yn codi o'r cofnodion:

(1)Eitem 58 – cymal 50 (a)(1) – Goryrru yn Sarn Mellteyrn

Ni dderbyniwyd ymateb i'r gwahoddiad i aelod o'r Heddlu ddod i'r cyfarfod a phenderfynwyd aros hyd nes y derbynir eu hymateb.

(2) ***Eitem 58 – cymal(b) Lloches bws ym Motwnnog***

Derbyniwyd gwybodaeth fod popeth mewn trefn bellach o'r ochr gyfreithiol a disgwylir i'r gwaith gael ei wneud erbyn diwedd mis Tachwedd.

Nodwyd y sylwad.

(3) Eitem 62 – Fandaliaeth – Ffynnon Fair, Bryncroes

Adroddwyd :

(a) y derbyniwyd e-bost gan CADW fel a ganlyn:

"Diolch am eich neges e-bost i Cadw, dyddiedig 20 Hydref, yn gofyn am gyngor ynglŷn â ffynnon sanctaidd Ffynnon Fair ym Mryncroes.

Mae'r disgrifiad rhestru yn nodi bod y ffynnon a'r bont gyfagos wedi'u cysylltu gan ddwy sianel dŵr ffo, ac wedi'u rhestru'n gradd II. Atodaf ddolen i'r cofnod rhestru perthnasol ar gyfer y ffynnon a'r bont ar ein system mapio ar-lein, Cof Cymru:

https://cadwpublic-api.azurewebsites.net/reports/listedbuilding/FullReport?lang=&Cy&ID=4255

Yn anffodus, nid wy'n gwybod pwy yw perchnogion y ffynnon, ond byddwn yn tybio mai cyfrifoldeb yr awdurdod priffyrdd lleol, Cyngor Gwynedd, yw'r bont.

Fel arfer, mae angen caniatâd adeilad rhestredig gan yr awdurdod cynllunio lleol ar gyfer unrhyw newidiadau i adeilad rhestredig felly bydd angen i chi gysylltu ag Eryl Williams, swyddog cadwraeth adeiladau Cyngor Gwynedd, am gyngor pellach ar sut i gael caniatâd. Nid oes angen caniatâd ar waith cynnal a chadw ac atgyweiriadau tebyg am debyg, ond bydd angen i chi gysylltu ag Eryl i gadarnhau a oes angen caniatâd ai peidio, yn enwedig os oes ansicrwydd ynghylch perchnogaeth y ffynnon. Efallai y bydd Eryl yn

gallu'ch helpu gyda mater perchnogaeth y ffynnon hefyd. Ei chyfeiriad e-bost yw: erylwilliams@gwynedd.llyw.cymru"
(b) Yr ysgrifenwyd at Eryl Wiliams yng Nghyngor Gwynedd a derbyniwyd ymateb fel a ganlyn:
"Fel sylwadau Cadw – tybir mai'r Cyngor, yr adran priffyrdd a fyddai'n gyfrifol am y strwythur – ond nid wyf yn bendant am hyn.
Fodd bynnag, ar wahân i'r fater perchennog - os byddai'r gwaith adfer yn unol fel y mae drwy ail-ddefnyddio'r cerrig a defnyddio morter calch ni fydd angen hawl ffurfiol dros hyn ac cewch fynd ymlaen efo'r gwaith."
(c) y derbyniwyd pris gan J.D. & M.E.P. Williams, Parc Bod Badrig, Sarn, Pwllheli, am drwsio gwaith cerrig ar Y Ffynnon – pris o £300+TAW.
Penderynwyd, ar sail heb rwymedigaeth pellach er iechyd a diogelwch y plant a'r trigolion i ymgymryd a'r gwaith am y tro hwn yn unig ac i dderbyn pris J.D. & M.E.P. Williams o £300+TAW am atgyweirio wal Y Ffynnon.
(4) **Mater ffyrdd –** nodwyd i'r gwaith o lenwi'r twll ger Talcen Eiddew, Bryn Mawr, gael ei wneud gan yr Adran Ffyrdd mewn dyddiau i roi gwybod iddynt amdano. Diolchwyd iddynt.

68. **CEISIADAU CYNLLUNIO**
Cyflwynwyd y ceisiadau a ganlyn:
(a) Cais C25/0727/32/LL – creu mynediad newydd, trac ac ardal troi yn ôl – Neigwl Ganol, Botwnnog
(b) Cais C25/0786/32/LL – adeiladu estyniad i adeilad amaethyddol presennol gyda storfa sylir o dan y llawr – Gwrych y Dryw, Botwnnog.
Penderfynwyd cefnogi'r ddau gais.

69. **AWDURDOD I DALU**
Nid oedd unrhyw daliad yn ddyledus.

70. **DATHLU DYDD GŴYL DEWI 2026**
Cyflwynwyd e-bost gan Alys Lloyd Jones, Cyngor Gwynedd, yn rhoi gwybodaeth am fuddsoddiad newydd gan Lywodraeth Cymru i gymunedau leded Cymru i'w helpu i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi 2026. Gallai grwpiau lleol wneud cais am grantiau gwerth rhwng £500 a £5,000 i gynnal digwyddiadau lleol neu gymdogaeth. Y dyddiad cau oedd 14eg Tachwedd, 2025.
Penderfynwyd ei anfon ymlaen at Y Cynghorydd Carys H. Evans yng Nghongl Meinciau ac hefyd Dafydd Rhys gan ofyn iddynt geisio hysbysebu'r wybodaeth.

71. **RALI GOFFA JAMES TRENHOLME**
Nodwyd llythyr Mari Lois yn rhoi manylion am y Rali Goffa oedd i'w chynnal penwythnos 16/17 Tachwedd, 2025.

72. **Y NADOLIG**
Gyda thymor y Nadolig ar y gorwel **penderfynwyd** unwaith yn rhagor rhoi cyfraniad o £50 i Neuadd Goffa Sarn, Canolfan Bryncroes a Chapel Rhydbach, Botwnnog, tuag at gael coeden/goleuadau Nadolig.
Penderfynwyd hefyd archebu blodau yn Nhyddyn Sachau ar gyfer y bareli (6 ohonynt).

73. **CYFRIFON Y CYNGOR HYD AT 31ain MAWRTH, 2025**
Adroddwyd y cyfrifon yn ôl oddi wrth Archwiliwr Cymru fel a ganlyn:

"Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol a barn archwilio

Ardystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o Ddatganiad Blynyddol Cyngor Cymuned Botwnnog ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025. Cynhaliwyd fy archwiliad ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru a yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2024 (Deddf 2004) a chanllawiau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Barn archwilio - Amodol

Heblaw am y materion a nodir isod yn fy Sail ar Amod, ar sail fy archwiliad, yn fy marn i nid oes unrhyw faterion wedi dod i'm sylw i roi achos i bryder bod, mewn unrhyw agwedd materol, y wybodaeth a adroddir yn y Ffurflen Flynyddol hon:

- nid yw wedi'i baratoi yn unol ag arferion priodol;
- nad yw gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol perthnasol wedi'u bodloni;
- nid yw'n gyson â threfniadau llywodraethu'r Cyngor; a
- nad oes gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.

Sail ar Amod

Datganiad Cyfrifyddu

Ni allaf ddod i'r casgliad a yw'r Datganiad Cyfrifyddu yn cyflwyno derbyniadau a thaliadau a sefyllfa ariannol y Cyngor yn briodol ai peidio:

- Nid yw'r Cyngor wedi darparu cysoni banc wedi'i gwblhau'n briodol ar 31 Mawrth 2025. Ni allaf ddod i'r casgliad a yw'r Datganiad Cyfrifyddu yn gofnod cyflawn a chywir o dderbyniadau a thaliadau'r Cyngor ai peidio.

Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Yn fy marn i, nid yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn gyson â rheolaethau mewnol a threfniadau llywodraethu y Cyngor ar gyfer y flwyddyn:

- Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor greu a chyhoeddi cynllun ar gyfer hyfforddiant cynghorwyr a staff. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu canllawiau statudol ar hyn, sy'n nodi bod yn rhaid i'r cynllun gael ei gymeradwyo gan y cyngor llawn ac yn cynnwys manylion am y math o hyfforddiant, niferoedd cyfranogwyr, amserlen, a chost. Nid yw'r Cyngor wedi bodloni ei rwymedigaeth o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i greu a chyhoeddi cynllun hyfforddi ar gyfer aelodau.

Materion ac argymhellion eraill

Tynnaf sylw'r Cyngor at y materion a'r argymhellion canlynol nad ydynt yn effeithio ar fy marn archwilio ond y dylai'r Cyngor fynd i'r afael â nhw.

Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol

Mae'r Cyngor wedi darparu ymateb cadarnhaol i honiad 10 yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Rwyf wedi cadarnhau gyda'r Cyngor bod yr ymateb a roddwyd yn anghywir ac nad yw'r Cyngor yn bodloni'r amodau sy'n ofynnol i arfer y Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol.

Rydym yn argymell bod y Cyngor yn adolygu'r datganiad yn ofalus cyn iddo ddarparu ymatebion cadarnhaol i'r honiad yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, i sicrhau bod ei ymatebion yn gywir.

Prosiectau cyfalaf

Ni ddarparodd y Cyngor unrhyw wybodaeth mewn perthynas â phrosiectau cyfalaf. Rydym yn argymell bod y Cyngor yn adolygu'r hysbysiad archwilio blynyddol i sicrhau bod yr holl wybodaeth ofynnol yn cael ei darparu yn amserol.

Nid oes unrhyw faterion pellach yr hoffwn eu tynnu at sylw'r Cyngor."

Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a rhoddi'r rhybuddion angenrhediol i fyny yn y Gymuned yn rhoddi hawl i etholwyr gael archwilio/gwneud copi o'r cyfryw.

74. **CYFARFOD ARFON/DWYFOR O UN LLAIS CYMRU**

Adroddodd Y Cynghorydd Siôn Williams iddo fethu cael cysylltiad i'r cyfarfod uchod ac iddo ysgrifennu at yr Ysgrifennydd i ddatgan hyn. Derbyniodd ymddiheuriad.

Penderfynwyd ysgrifennu at yr Ysgrifennydd yn gofyn am sicrwydd na fydd hyn yn digwydd eto.

75. **MATERION FFYRDD**

Penderfynwyd anfon at yr Adran Priffyrdd ynglyn a'r canlynol:

(a) Angen torri coeden oedd wedi tyfu yn yr agoriad i bont Felin Ganol, Sarn, gan ei bod yn rhwystro y llif rhag mynd i'r afon ac felly yn ei gwneud yn anodd i gerddwyr/cerbydau basio drwodd.

(b) Gofyn am gael glanhau Allt Mellteyrn gan ei bod yn berygl 'nawr wedi i'r dail syrthio. Er nad yw rhan fwyaf o'r briffordd yn Nanhoron yn ardal y Cyngor, gofyn a fyddai modd rhoi sylw i'r ffordd yna hefyd.